Clinig Tylino Chwaraeon Met Caerdydd

EIN HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Cymerwch amser i ddarllen y wybodaeth hon yn ofalus.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn disgrifio'r math o wybodaeth bersonol rydym yn ei chasglu gennych, y rhesymau dros ei chadw a'r hyn a wnawn â'r wybodaeth.

Y WYBODAETH A GASGLWN

MANYLION PERSONOL

Pan fyddwch yn trefnu apwyntiad, byddwn yn casglu manylion personol megis eich enw, dyddiad geni, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a'ch rhif cyswllt. Caiff y wybodaeth hon ei defnyddio i'ch adnabod ac i gysylltu â chi ynglŷn â'r apwyntiadau a'r gwasanaethau rydych wedi'u trefnu.

MANYLION ASESU

Er mwyn rhoi triniaeth dylino ddiogel ac effeithiol, bydd hefyd angen i ni gasglu gwybodaeth am eich iechyd cyffredinol a'ch hanes meddygol. Bydd hyn yn cynnwys

- Manylion personol (Enw, dyddiad geni, cyfeiriad, enw a chyfeiriad eich meddyg, swydd, cyfeiriad e-bost a rhif cyswllt)
- Gwybodaeth am eich iechyd cyffredinol a'ch hanes meddygol, gan gynnwys:
    - Cyflyrau meddygol
    - Anafiadau a damweiniau blaenorol
    - Gwybodaeth am driniaethau blaenorol rydych wedi'u derbyn

Yn ogystal, mae'n bosibl y byddwn yn gofyn am y canlynol:

- Gohebiaeth gan ddarparwyr gofal iechyd eraill sy'n gysylltiedig â'ch gofal a'ch triniaeth
- Sganiau clinigol, gan gynnwys Pelydrau X ac MRI

Dim ond er mwyn sicrhau bod eich triniaeth mor effeithiol â phosibl yn unig y caiff y wybodaeth hon ei defnyddio.

Rydym hefyd yn cadw gwybodaeth am ddyddiadau'r apwyntiadau, y therapydd a welwyd gennych ac am y driniaeth.

PWY ALL WELD EICH MANYLION

Mae'r rheini a all weld eich gwybodaeth yn y clinig yn cynnwys Ymarferwyr Tylino sy'n rhoi'r driniaeth, Rheolwr y Clinig, y Rheolwr Busnes a staff y dderbynfa sy'n gyfrifol am weinyddu archebion y Clinig.

Mae ein Swyddog Cydymffurfio Gwybodaeth a Data, Sean Weaver, yn sicrhau bod y clinig yn cydymffurfio â gofynion diogelu data fel ein bod yn casglu, defnyddio, cadw ac yn gwaredu eich gwybodaeth yn gyfrifol.

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn ymrwymedig i ddiogelu hawliau unigolion yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Mae gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd Bolisi Diogelu Data sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd.

SUT RYDYM YN DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH

Er mwyn rhoi triniaeth dylino ddiogel ac effeithiol, bydd angen i ni dderbyn gwybodaeth gywir a chyfredol amdanoch.

Ni fyddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol am unrhyw reswm eilaidd, megis ar gyfer marchnata, oni bai eich bod wedi rhoi caniatâd i ni wneud hynny drwy dicio'r blwch ar eich taflen asesu.

AM FAINT O AMSER RYDYM YN CADW EICH GWYBODAETH.

Er mwyn diogelu'n gyfreithiol, mae'n ofynnol ein bod yn cadw'r wybodaeth bersonol a roddwyd gennych a'r nodiadau ynglŷn â'r driniaeth dylino am o leiaf saith mlynedd o ddyddiad eich triniaeth ddiwethaf.

Byddwn yn rhwygo/dileu yr holl wybodaeth bersonol sydd gennym yn gyfrinachol saith mlynedd ar ôl eich triniaeth ddiwethaf.

RHANNU GWYBODAETH

Fel arfer, dim ond gan y rheini sy'n gweithio yn y clinig yn unig y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio ond mae'n bosibl y bydd achosion lle y bydd angen i ni ei rhannu – er enghraifft gyda'r unigolion canlynol:

- Eich meddyg
- Ffisiotherapyddion Mewnol a Chlinig Ffisiotherapi Met Caerdydd fel rhan o'n proses atgyfeirio.

- Darparwyr gofal iechyd eraill, at ddibenion atgyfeirio er mwyn sicrhau y caiff y gofal priodol ei ddarparu.

Dim ond y wybodaeth angenrheidiol sydd ei hangen arnynt y byddwn yn ei datgelu a byddwn yn cyfyngu unrhyw wybodaeth rydym yn ei rhannu cyn lleied â phosibl. Byddwn yn gofyn am eich caniatâd cyn rhannu unrhyw wybodaeth.

Ni fyddwn yn rhannu, gwerthu na dosbarthu unrhyw wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni heb eich caniatâd oni bai ei fod yn ofynnol gwneud hynny yn ôl y gyfraith.

TRIN A CHADW DATA

MANYLION PERSONOL

Caiff archebion apwyntiadau a manylion personol eu cadw ar Gladstone. System Reoli Hamdden yw Gladstone sy'n sicrhau y caiff data eu casglu, eu cadw, eu defnyddio a'u prosesu'n ddiogel.

NODIADAU ASESU CLINIGAU

Caiff eich nodiadau Asesu, sy'n cynnwys manylion personol, hanes meddygol a nodiadau ynglŷn â'ch triniaeth, eu cadw mewn cypyrddau ffeilio dan glo yng nghyfleuster y Clinig.

Dim ond y rheini sy'n gweithio yn y clinig a all weld eich gwybodaeth. Maent yn deall eu cyfrifoldeb cyfreithiol i gynnal cyfrinachedd ac i ddilyn gweithdrefnau'r clinig i sicrhau y caiff hyn ei gyflawni.

Er mwyn diogelu eich gwybodaeth bersonol, rydym yn cymryd rhagofalon rhesymol ac yn dilyn arferion gorau'r diwydiant er mwyn sicrhau na chaiff ei cholli, ei chamddefnyddio, ei defnyddio, ei datgelu, ei diwygio na'i dinistrio'n amhriodol.

GWELD EICH GWYBODAETH A HAWLIAU ERAILL

Mae hawl gennych i weld y wybodaeth sydd gennym amdanoch ac i dderbyn copi ohoni. Dylech gyflwyno eich cais i'r clinig yn ysgrifenedig neu drwy e-bost.

Gallwch hefyd wneud cais i ni am y canlynol:

- Cywiro unrhyw wybodaeth sy'n anghywir neu'n anghyflawn yn eich barn chi.
- Dileu gwybodaeth sydd gennym, er y dylech fod yn ymwybodol na allwn ddileu gwybodaeth benodol am resymau cyfreithiol o bosibl (er enghraifft, gwybodaeth am eich triniaethau tylino). Ymdrinnir â cheisiadau am ddileu gwybodaeth o fewn un mis o dderbyn yr e-bost.

- Rhoi'r gorau i ddefnyddio eich gwybodaeth – er enghraifft, gwybodaeth am ein gwasanaeth

Dylid cyflwyno unrhyw geisiadau yn ysgrifenedig i Reolwr y Clinig Tylino Chwaraeon: -
Alice Rees
Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Campws Cyncoed, Heol Cyncoed,
Caerdydd, CF23 6XD
E-bost: amrees@cardiffmet.ac.uk

CWYNION

Os hoffech wneud cwyn ynglŷn â'r ffordd y cafodd eich data personol eu prosesu, gallwch ddod o hyd i fanylion am sut i wneud hynny yma.

Dylid cyflwyno unrhyw geisiadau neu wrthwynebiadau yn ysgrifenedig i Swyddog Cydymffurfio Gwybodaeth a Data y Brifysgol: -

Sean Weaver
Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Rhodfa'r Gorllewin
Llandaf
Caerdydd
CF5 2YB

Os na fydd y broses hon yn datrys eich problem, neu os hoffech fynd â'ch cwyn ymhellach, mae gennych hawl i gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth. Y manylion cyswllt yw:-

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire,
SK9 5AF
www.ico.org.uk